

# Gweithdrefnau Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol CMC

## Cyflwyniad

- 1 Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnig trosolwg o weithdrefnau Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol CMC. Mae'n gweithdrefnau Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn caniatáu i ni ymateb i'r pryderon mwyaf difrifol, sy'n bwrw amheuaeth ar addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol, a'u hawl i gadw eu cofrestrriad digyfngiad.
- 2 Rhennir ein gweithdrefnau Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn ddau gam: 'ymchwilio' a 'dyfarnu'. Yn ystod y cam ymchwilio, byddwn yn ymchwilio i achosion er mwyn asesu a fydd angen i ni eu cyfeirio i'r cam dyfarnu. Mae'r cam dyfarnu yn golygu y bydd panel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn gwrandao ar yr achosion hynny a gyfeiriwyd gennym.
- 3 Mae'r siart ar ddiwedd y ddogfen hon yn esbonio'r gweithdrefnau amrywiol a'r ffordd y bydd modd cyfeirio pryderon i CMC.

## Ymchwilio

- 4 Yn gynnar, byddwn yn penderfynu a fydd angen i ni ymchwilio ymhellach i unrhyw faterion ac os felly, beth ddylai ffurf yr ymchwiliad hwnnw fod.
- 5 Mewn rhai achosion, bydd yn amlwg o'r cychwyn na fydd yn briodol i ni ymchwilio iddo (er enghraifft, oherwydd nad yw'n ymwneud â meddyg neu oherwydd ei bod yn amlwg nad yw'r achos yn cael ei gynnwys o fewn ein meini prawf ar gyfer cymryd camau yn erbyn meddyg).
- 6 Os nad yw'r materion y mae'r gŵyn yn tynnu sylw atynt yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, bydd y camau y byddwn yn eu cymryd yn dibynnu ar y sawl sy'n cyflogi'r meddyg.

Os yw'r meddyg wedi'u cyflogi o fewn GIG, byddwn yn cyfeirio'r mater at gyflogwr y meddyg fel arfer, er mwyn iddynt gymryd y camau sy'n briodol yn eu barn nhw dan eu gweithdrefnau lleol, gan adrodd yn ôl i ni pan fydd materion yn codi sy'n mynnu ein bod yn gweithredu er mwyn diogelu cleifion.

Os bydd y meddyg yn gweithio fel locwm neu mewn lleoliad preifat, byddwn yn cysylltu â chyflogwr y meddyg er mwyn darganfod a oes unrhyw bryderon eraill am y meddyg, cyn i ni benderfynu a oes modd i ni gwblhau'r achos neu a oes angen i ni wneud ymholiadau eraill.

- 7 Pan allai'r pryderon fod yn codi cwestiynau ynghylch addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, byddwn yn cychwyn ar ein hymchwiliad. Pryd bynnag y byddwn yn ymchwilio i bryderon ymhellach, byddwn yn datgelu'r gŵyn i'r meddyg ac i'w cyflogwr/corff noddi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn meddu ar drosolwg cyflawn o'r gwaith meddygol a wneir gan y meddyg. Yn ogystal, mae'r cam hwn o gyfnewid gwybodaeth yn sicrhau bod ein gwybodaeth ni ar gael i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu clinigol lleol.
- 8 Ar yr adeg hon, bydd y meddyg yn cael cyfle i wneud sylwadau am y gŵyn.
- 9 Bydd ein hymchwiliad yn dibynnu'n fawr ar natur y pryderon a fynegwyd i ni. Bydd ein tîm Ymchwilio yn penderfynu ar ffurf y gweithgarwch ymchwilio mwyaf effeithiol ar gyfer yr achos. Gallai ymchwiliad gynnwys:
  - sicrhau tystiolaeth ddogfennol bellach gan gyflogwr, y cwynwr neu bartion eraill
  - sicrhau datganiadau gan dystion
  - sicrhau adroddiadau arbenigol ynghylch materion clinigol
  - asesiad o berfformiad y meddyg
  - asesiad o iechyd y meddyg.

- 10** Os byddwn o'r farn y gallai meddyg beri risg uniongyrchol i gleifion, neu os yw er eu budd nhw neu er budd y cyhoedd, gallwn gymryd camau ar unwaith er mwyn atal meddyg rhag gweithio trwy eu hatal dros dro rhag gwneud gwaith meddygol, neu gyfyngu ar eu hawl i wneud gwaith meddygol, wrth i ni barhau gyda'n hymchwiliadau.

### Faint o amser fydd yr ymchwiliad yn ei gymryd?

- 11** Bydd hyd yr ymchwiliad yn dibynnu ar gymhlethdod a difrifoldeb y pryderon. Byddwn yn cwblhau'r ymchwiliad mor gyflym ac mor effeithlon ag y bo modd, gan hysbysu'r meddyg a'r unigolyn a wnaeth fynegi'r pryder, o unrhyw gynnydd.

### Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd yr ymchwiliad?

- 12** Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd dau aelod o staff uwch yn CMC, a elwir yn archwilwyr achos (un meddygol ac un anfeddygol) yn ystyried yr achos. Gallant:
- gwblhau'r achos heb gymryd unrhyw gamau pellach
  - rhoi rhybudd
  - cyfeirio'r achos ymlaen i banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol
  - cytuno ar ymgymeriadau ynghylch materion iechyd a pherfformiad yn dilyn asesiad iechyd neu asesiad perfformiad.
- 13** Ni fydd modd cwblhau unrhyw achos na chyfeirio unrhyw achos ymlaen i banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol heb sicrhau cytundeb archwiliwr achos meddygol ac archwiliwr achos anfeddygol. Os na fyddant yn cytuno, bydd y Pwyllgor Ymchwilio, pwyllgor statudol CMC, yn ystyried y mater.
- 14** Os bydd yr archwilwyr achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu nas amharwyd ar addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, gallant roi rhybudd. Gallai rhybudd fod yn briodol pan fo'r pryderon yn ymwneud ag achos lle y gwelwyd rhywun yn gwyo'n sylweddol o'r safonau a bennir yn arweiniad CMC ar gyfer meddygon, *Arfer Meddygol Da*, neu os bydd rhywbeth yn peri pryder sylweddol yn dilyn asesiad.
- 15** Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn ystyried yr achosion hynny pan fo archwilwyr achos yn penderfynu rhoi rhybudd, ond pan fo'r meddyg wedi anghytuno gyda'r ffeithiau, neu pan fyddant wedi gofyn i'r mater gael ei ystyried mewn gwrandawriad gan y Pwyllgor Ymchwilio. Bydd y gwrandawriad a gynhelir yn wrandawriad cyhoeddus.

- 16** Byddwn yn hysbysu'r meddyg a'r cwynwr/sefydliad cyfeirio o benderfyniad yr archwilwyr achos, a'u rhesymau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

### Cyfeirio meddyg at banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol

- 17** Mae paneli Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn cyfateb â cham olaf ein gweithdrefnau. Mae panel yn cynnwys pobl y maent wedi cael hyfforddiant arbennig, yn feddygon ac yn aelodau'r cyhoedd, a fydd yn gwrandawro ar yr holl dystiolaeth ac yn penderfynu ar ddiwedd y gwrandawriad a fydd angen iddynt gymryd camau yn erbyn y meddyg neu beidio. Bydd y paneli yn gweithredu yn unol â'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddir gan CMC. Bydd y gwrandawriadau a gynhelir yn rhai cyhoeddus, oni bai eu bod yn clywed dystiolaeth gyfrinachol ynghylch iechyd meddyg.

### Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd gwrandawriad panel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol?

- 18** Ar ddiwedd y gwrandawriad, efallai y bydd y panel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn penderfynu nas amharwyd ar addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, ac fe fydd yn penderfynu peidio cymryd unrhyw gamau neu roi rhybudd. Pan fydd yn canfod bod addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol wedi cael ei amharu, gall gymryd un o'r camau canlynol:
- gosod amodau ar gofrestr y meddyg (gallai hyn olygu mai'r unig adeg y bydd modd i'r meddyg wneud gwaith meddygol yw pan fyddant yn cael eu goruchwyllo, neu y bydd eu gwaith meddygol yn cael ei gyfyngu i feysydd gwaith penodol)
  - tynnu enw'r meddyg oddi ar y gofrestr feddygol am gyfnod penodol, er mwyn sicrhau na fydd modd iddynt wneud gwaith meddygol yn ystod y cyfnod pan fyddant yn cael eu hatal dros dro
  - tynnu (dileu) enw'r meddyg oddi ar y gofrestr feddygol er mwyn sicrhau na fydd modd iddynt weithio fel meddyg ym Mhrydain; mae'n fwriad gan CMC y dylai'r cam o dynnu eu henw oddi ar y gofrestr, olygu na fyddant yn cael eu cynnwys ar y gofrestr fyth eto.
- 19** Os bydd y panel yn penderfynu gosod amodau ar gofrestr y meddyg, gallant wneud gorchymyn bod unrhyw amodau yn dod i rym ar unwaith. Os bydd y panel yn penderfynu y dylid atal cofrestr y meddyg dros dro neu y dylid tynnu eu henw oddi ar y gofrestr, gallant wneud gorchymyn i'w hatal rhag gwneud gwaith meddygol ar unwaith hefyd.

## Rhybuddion

- 20** Bydd rhybudd yn briodol pan fydd y pryderon yn cyfeirio at achos o wyro'n sylweddol o'r egwyddorion a nodir yn arweiniad CMC ar gyfer meddygon, *Arfer Meddygol Da*, neu os ceir pryder sylweddol yn dilyn asesiad, ond nad oes angen gosod cyfyngiad ar gofrestrriad y meddyg.
- 21** Am ragor o wybodaeth am rybuddion, trowch at y daflen ffeithiau y mae modd ei lawrlwytho o'n gwefan.

## Ymgymeriadau

- 22** Mae ymgymeriadau yn gytundeb gorfodadwy rhwng CMC a'r meddyg ynghylch y gwaith meddygol y bydd modd i'r meddyg ei gyflawni yn y dyfodol. Maent yn caniatáu i CMC ddelio gydag achosion lle y mae'r materion yn ymwneud ag iechyd neu berfformiad y meddyg mewn ffordd effeithiol, heb orfod cyfeirio'r achos i Banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol. Gallai ymgymeriadau o'r fath gynnwys cyfyngiadau ar waith meddygol neu ymddygiad yr ymarferydd, neu ymrwymiad i fod yn destun trefniadau goruchwyllo meddygol neu i ailhyfforddi.
- 23** Am ragor o wybodaeth am ymgymeriadau, a fydddech gystal â throi at y daflen ffeithiau, y mae modd ei lawrlwytho o'n gwefan.

## Panel Gorchmynion Interim

- 24** Ar unrhyw adeg yn ystod y trefniadau, gallwn gyfeirio'r meddyg i'r Panel Gorchmynion Interim (PGI). Gall PGI atal neu gyfyngu ar hawl meddyg i wneud gwaith meddygol wrth i'r ymchwiliad barhau.

Am ragor o wybodaeth am y Panel Gorchmynion Interim, a fydddech gystal â throi at y daflen ffeithiau Ymchwilio Pryderon, y mae modd ei lawrlwytho o'n gwefan.

## Collfarnau a phenderfyniadau a wneir gan gyrrff rheoleiddio eraill

- 25** Mae'n rheolau ni yn ein galluogi i ddelio gyda meddygon y rhoddwyd collfarn droseddol iddynt neu y maent wedi bod yn destun penderfyniad a wnaethpwyd gan gorff rheoleiddio ym Mhrydain neu mewn gwlad dramor, ar unwaith.
- 26** Byddwn yn trin collfarnau a phenderfyniadau a wnaethpwyd gan gyrrff rheoleiddio eraill fel prawf o'r drosedd honno. Mewn nifer o achosion, yn enwedig pan rhoddwyd dedfryd o garchar i'r meddyg, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn uniongyrchol er mwyn

cynnal gwrandawriad.

- 27** Bydd achosion sy'n cynnwys collfarnau sy'n perthyn i gategoriâu penodol (megis troseddau parcio), yn cael eu cwblhau yn gynnar iawn, ac ni wneir unrhyw ymchwiliadau pellach yn eu cylch ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn eu cylch.

## Apelio

- 28** Bydd gan feddyg 28 diwrnod i apelio i'r Uchel Lys neu i Lys y Sesiwn ynghylch unrhyw benderfyniad a wneir gan y panel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol. Ni fydd penderfyniad y panel yn cael ei weithredu nes bydd y cyfnod apelio yn dod i ben neu nes gwneir penderfyniad am yr apêl. Fodd bynnag, bydd panel yn gallu gwneud gorchymyn atal neu orchymyn gosod amodau ar unwaith os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd neu os yw hynny er lles pennaf y meddyg.

## Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd

- 29** Mae gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE) y grym i gyfeirio penderfyniad a wnaethpwyd gan banel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol i'r Uchel Lys (neu gorff cyfatebol ar draws y DU) er mwyn diogelu'r cyhoedd, os yw o'r farn nad yw'r penderfyniad yn ddigon llym. Mae gan CHRE 28 diwrnod i benderfynu a yw'n dymuno cyfeirio penderfyniad yn dilyn cyfnod apelio 28 diwrnod y meddyg. Bydd CHRE yn adolygu holl benderfyniadau paneli Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol CMC nad ydynt wedi arwain at dynnu enw meddyg oddi ar y gofrestr.

## Terfynau Amser

- 30** Fel arfer, ni fydd CMC yn ymchwilio i gwynion ynghylch materion a ddigwyddodd dros bum mlynedd yn ôl, oni bai ei fod o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i'r achos symud yn ei flaen.

## Yr hyn nad oes modd i ni ei wneud

- 31** Mae'n pwerau cyfreithiol yn ein galluogi i gymryd camau pan geir tystiolaeth ei bod yn angenrheidiol atal neu gyfyngu ar hawl y meddyg i wneud gwaith meddygol. Ceir meysydd eraill lle nad oes modd i ni weithredu. Yn arbennig, ni allwn:
- ddelio gyda phryderon neu gwynion ynghylch nyrsys, fferyllwyr, deintyddion, optegwyr, rheolwyr ysbyty neu reolwyr practis, neu staff gweinyddol, neu unrhyw un nad ydynt yn feddyg cofrestredig (mae gan sawl math arall o weithwyr proffesiynol meddygol eu cyrrff rheoleiddio a'u gweithdrefnau cwyno eu hunain);

- cynnig cyngor ynghylch safonau gwaith meddygol sy'n berthnasol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill (bydd y cyrff rheoleiddio ar gyfer y proffesiynau hynny yn gallu helpu)
- cymrodeddu yn ystod anghydfodau adrannol neu bractis
- ymyrryd yn ystod gweithdrefnau disgyblu lleol
- cynnig cyngor a chymorth i feddygon y mae eu cyflogwyr yn ystyried cymryd camau yn eu herbyn (dylai meddygon sy'n wynebu sefyllfa o'r fath ymgynghori â'u sefydliad amddiffyn meddygol neu Gymdeithas Feddygol Prydain)
- mynnu bod meddyg yn ymddiheuro i glaf neu gydweithiwr proffesiynol
- mynnu bod meddyg yn rhoi triniaeth i'r claf y maent yn dymuno'i chael
- talu iawndal i glaf neu ddirwyo meddyg.